



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
ANT 8 - FRESHWATER WEST/
TWYNI BROWNSLADE



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Ardal o iseldir tonnog, bron heb unrhyw anheddiad o gwbl, a'r ardaloedd arfordirol cysylltiedig o dwyni tywod sefydlog, clogwyni môr isel a baeau.

Nodweddion Gweledol a Synhwyaidd

Ardal agored, nodedig, braidd yn donnog ac fe'i dominyddir gan dwyni tywod ar gefndir o gaeau corsiog ar ben gorllewinol Cors Castellmartin. Mae'r cysylltiad gweledol a synhwyaidd agos gyda'r arfordir yn ychwanegu at yr ymdeimlad o le, yn enwedig pan fydd gwyntoedd de-orllewinol cryfion yn chwythu ac yn codi tonnau uchel ar hyd y traeth llydan agored a'r blaendraeth caregog.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Mae'r cynefinoedd yn cynnwys twyni tywod arfordirol, ffeniau, gwelyau cyrs, glaswellt y bwla a phorfa frwynaidd, glaswelltir calchaid isel, clogwyni morol, arfordir ac isarfordir. Mae'n cynnal nifer o rywogaethau pwysig gan gynnwys y frân goesgoch, cornicyllod yn y Gaeaf, rhydwy, morloi llwyd, gwiber, nadroedd porfa, dallnadroedd, anifeiliaid di-asgwrn-cefn prin (gan gynnwys mursennod cynffon las prin a'r cricsyn hirgron gwyrdd) a sawl planhigyn pwysig, gan gynnwys alaw ffen a

Nodweddion Daearegol

System twyni tywod helaeth sy'n codi o lefel y traeth dros hen ardaloedd o glogwyni (Chwaternaidd: Holosen), a sefydlogwyd yn rhannol a gyda phyllau tywod. Yn cynnwys traeth o dywod ac ardal helaeth o flaendraeth caregog yng nghanol y Bae gyda chlogwyni môr cyfagos. Mae Cors Castellmartin yn gwm sy'n gorwedd i'r GorGoGro-DwGoDw gyda llethrau gweddol serth ar y naill ochr a'r llall a llawr llydan. Mae'r llawr yn cynnwys ardal iselach, gwastad sy'n gorsiog i'r Gorllewin a nodweddion tebyg i deras sydd ychydig yn uwch, gyda llethrau ysgafn iawn, ar ochr ddeheuol y cwm. Pen y cwm tua'r môr i'r gorllewin wedi'i flocio gan dwyni tywod yn Broomhill Burrows. Yn cynnwys cefngwm bach i'r Gogledd gyda gorlifdir cul. (Chwaternaidd: Pleistosenaid-Holosen).

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Mae yna hen strwythurau milwrol a chaerau o'r Oes Haearn sy'n bwysig yn genedlaethol. Cadwyd llawer o'r nodweddion hyn trwy lif y tywod, ac felly mae'r twyni yn Nhwyni Kilpaison a Brownslade yn bwysig iawn i gadwraeth ffisegol safleoedd archeolegol. Mae Cors Castellmartin hefyd o bwysigrwydd hanesyddol. Mae'r traethau'n rhan bwysig iawn o'r morlin a chysyniad y Parc Cenedlaethol. Yn ddiwylliannol maen nhw'n bwysig iawn ym marn trigolion lleol ac ymwelwyr.

Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gwledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
8	Freshwater West	61 - Canolig 79 - Uchel 81-Eithriadol	235 - Eithriadol 239 - Uchel	142 - Eithriadol 359 - Uchel 531 - Uchel 780 - Uchel 865 - Uchel	46188 - Eithriadol 46189 - Uchel 46190 - Uchel	003 - Eithriadol 705 - Eithriadol

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
 Uchel: O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
 Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
 Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at yr Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)

Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Diffiniwyd yr ANT hon yn ôl ei ehangder o draeth tywodlyd ar gefndir o system helaeth o dwyni tywod sefydlog, sy'n brin iawn yn y Parc Cenedlaethol. Yn eu tro, mae'r rhain ar gefndir o gwm llydan, bas isel a reolir ar gyfer amaethyddiaeth fugeiliol ar dir sydd wedi'i adennill i raddau helaeth o gors. Mae'n dirwedd o werth daearegol eithriadol
- Ceir ymdeimlad hynod o agored i'r dirwedd hon gydag ymwybyddiaeth gyson o'r gwynt a'r môr, a finiogir gan sain y tonnau'n taro ar hyd y traeth pan fydd y prifwyntoedd de-orllewinol yn ddigon cryf
- Er bod yna ffordd gyhoeddus balmantog sy'n cael defnydd da, sy'n pasio drwy'r system twyni, oherwydd ei aliniad a graddfa'r twyni tywod gerllaw, nid yw darn helaeth ohono'n weledol ar hyd y tir isel, ac felly mae'n cyfrannu at naws bellennig y lle
- Mae ei natur agored iawn, ynghyd â'i ynysiad cymharol a'r diffyg anheddiad, oll yn cyfrannu'n gryf at y naws bellennig a gwyllt sy'n treiddio'r i'r ardal, ac yn cael ei ennyn gan dirwedd donnog a gwyntog o dwyni tywod. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod meysydd tanio Castellmartin mor agos a bod brigau staciau uchel purfa olew Texaco yn ymwthio uwchben y gorwel i'r gogledd ddwyrain
- Mae'r amrywiaeth o gynefinoedd sydd yma o arwyddocâd a phwysigrwydd cenedlaethol
- Mae hen osodiadau milwrol yn atgof o bwysigrwydd hanesyddol cenedlaethol Aberdaugleddau, gerllaw, fel porthladd i'r môr, a'r angen i amddiffyn ei osodiadau rhag ymosodiad.
- Cefnogir y gwerth diwylliannol uchel gan bresenoldeb darn o dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn yr adran ogleddol ar ran o Dwyni Broomhill.


Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae'r dilyniant naturiol o dwyni tywod yn ymddangos ei fod mewn cyflwr cyson, gydag arwyddion lleol o erydiad yn unig ar hyd llwybrau cerdded anffurfiol drwy'r twyni
- Mae'r sbwriel a'r malurion sy'n casglu yn y twyni ac yn y meysydd parcio yn ffenomenon lleol sy'n deillio'n bennaf o froc môr sy'n cael ei chwythu tua'r tir o'r traeth agored pan fydd y gwyntoedd yn chwythu o'r de orllewin.

Canllawiau Rheoli

- Cynnal a gwarchod y naws bellennig
- Sicrhau nad yw'r ardal yn cael ei difetha gan gronid broc môr
- Amddiffyn y dilyniant naturiol o dwyni tywod gyda chymunedau o hesg môr wrth gefn y Twyni trwy reoli'r defnydd o'r llwybr cerdded ac osgoi unrhyw ddatblygiad a fyddai'n tarfu ar y dilyniant hwn
- Sicrhau bod lledaeniad prysg/rhedyn yn cael ei fonitro ac yn ddarostyngedig i'r mesurau rheoli priodol, fel sy'n angenrheidiol, i'w hatal rhag ymgartrefu ar y twyni a'r glaswelltir arfordirol
- Sicrhau nad ydyw'r draenio'n cael ei newid mewn ffordd sy'n niweidiol i gymunedau tir cors lled-naturiol ar Gors Castellmartin, gan gynnwys rheoli dalgylchoedd integredig law yn llaw gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 9 - PENRHYN MARLOES



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Yn ei hanfod, pentir mawr llydan o iseldir tonnog a'r ymyl arfordirol, y clogwyni môr i'r gogledd orllewin a'r de ar hyd Penrhyn St. Ann's a thir morydol cysylltiedig ar hyd glannau gogleddol allanol Aberdaugleddau.

Nodweddion Gweledol a Synhwyrdd

Mae gan yr ardal hon ddarn mawr o dirwedd amaethyddol gyda ffermydd a phentrefi gwasgaredig, sy'n ffurfio cefnfro arfordirol y pentir mawr hwn. Hwnt ac yma ar draws y dirwedd mae yna ambell gwm bach coedog a llain o goetir. Mae'r golygfeydd o'r arfordir yn ychwanegu at yr ymdeimlad o le, fel yr hen feysydd awyr segur yn Nhalbenni a de Marloes y gellid teimlo eu bod yn cael effaith ddifriol ar y dirwedd. Mae yna ardal o wlypdir sy'n gysylltiedig ag aber Dale a chyfres o byllau artiffisial i'r dwyrain o Lanisan yn Rhos. Mae yna glogwyni arfordirol helaeth iawn rhwng Little Haven a Dale, sy'n cyferbynnu gyda thraethlin iselach gogledd orllewin moryd Aberdaugleddau. Mae pob ardal yn cynnwys cyfres o glogwyni a llethrau danheddus sydd, yn gyffredinol, yn llai amlwg nag ar rannau mwy agored o'r arfordir i'r gogledd, yn enwedig o fewn cildraethau bach, traethau a rhannau cysgodol o'r arfordir. Yn adran orllewinol yr ardal hon mae yna olygfeydd arfordirol helaeth gan gynnwys golygfeydd o ynysoedd Sgomer a Sgogwm oddi ar y lan. Mae golygfeydd o LNG De Hook yn nodwedd o adran ddwyreiniol yr ANT.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Mae yma amrywiaeth helaeth o gynefinoedd gan gynnwys clogwyni môr, glannau tywodlyd a charegog, fflatiau llaid, morfa heli a rhostir gwlyb a sych. Mae yna ardaloedd bach o laswellt y bwla a phorfa frwynaidd, ac mae coetir deillgoll cymysg yr iseldir wedi datblygu mewn cymoedd arfordirol cysgodol e.e. Dale. Mae rhywogaethau nodedig yn cynnwys y frân goesgoch, yr hebog tramor a'r morlo llwyd. Mae Llyn Marloes yn wlypdir pwysig sy'n cynnal amrywiaeth o adar gwlypdir yn y Gaeaf.

Nodweddion Daearogol

Dominyddir craig-glogwyni a blaendraeth caregog cul o amgylch Penrhyn y Santes Ann gan dywodfaen a cherrig silt Hen Dywodfaen Coch (Silwraidd-Dyfnantaid). Dominyddir clogwyni caregog a thraethau tywodlyd a blaendraeth caregog ffiniol penrhyn Marloes gan greigiau Silwraidd folcanig gyda pheth tywodfaen.

Mae prif ardal ddaearol penrhyn Marloes yn llwyfandir gwastad, yn bennaf tua 60m UDO. Yn lleol, mae'n codi i'r Gogledd i tua 70m. Dominyddir gan greigiau folcanig Silwraidd gyda rhai ardaloedd o rewglai [Chwaternaid: Pleistosenaid].

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Mae yna henebion o gynhanes, bryngaerau o'r Oes Haearn, tai crwn, meini hirion, adeiladau canoloesol, a gwrthgloddiau, amddiffynfeydd o'r 19eg ganrif a goleudy Penrhyn y Santes Ann, sydd oll o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae yna barcdir bach o'r 19eg ganrif yn Monk Haven. Mae llawer o'r ANT yn gorwedd o fewn Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Dyfrffordd Aberdaugleddau.

Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- - Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol

Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
9	Marloes	29 - Eithriadol 69 - Canolig 73-Eithriadol 74 - Eithriadol	136-Canolig 137-Canolig 138-Canolig 139-Canolig 140-Canolig 144-Canolig 155-Canolig	127 - Isel 365 - Uchel 602 - Uchel 619 - Canolig 661 - Uchel 632 - Canolig 667 - Canolig 679-Isel 698 - Canolig 746-Canolig 822-Uchel	43883-Eithriadol 43884-Eithriadol 43885-Eithriadol 43887-Eithriadol 43888-Eithriadol 43891-Eithriadol 43901-Outstnding 46053-Eithriadol 46054 - Uchel	003-Eithriadol 819-Uchel

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Ar benrhyn Marloes mae yna dir fferm tonnog agored deniadol sy'n cyferbynnu gyda'r cymoedd coediog mwy cysgodol, sydd fwyaf nodedig i'r de o Sain Ffraid, o amgylch Dale a Llanisan yn Rhos ac yn ffinio gyda Sandy Haven Pill
- Mae'r gyfran uchel o olygfeydd arfordirol, gan gynnwys y rhai allan at ynysoedd Sgomer a Sgogwm, yn cyfrannu'n sylweddol at yr ymdeimlad o le a gwerth tirwedd weledol a synhwyrdd yr ardal fawr hon, sy'n aml yn eithriadol
- Mae yna gynefinoedd gweundir a thraethlin sydd o bwysigrwydd rhyngwladol ac sy'n arwain at werth ecolegol uchel rhai tirweddau
- Mae'r nodweddion hanesyddol ac archeolegol a gofnodwyd yn bwysig yn genedlaethol, cymaint nes bod llawer o'r ardal hon â gwerth hanesyddol eithriadol i'r dirwedd. Tanlinellir rôl amddiffynnol hirsefydlog y penrhyn gan yr amrywiaeth o nodweddion archeolegol a gofnodwyd, sy'n amrywio o'r Oes Haearn i osodiadau milwrol modern.
- Mae Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Dyfrffordd Aberdaugleddau yn cwmpasu arch fawr o dir yn rhan ddeheuol yr ANT hon, gan gynnwys pentir Penrhyn y Santes Ann, pentrefi Dale a Llanisan yn Rhos, i fyny at ffin yr ANT yn Sandy Haven Pill. Mae gan y dirwedd forydol, sy'n ddyffryn afon, gasgliad diguro o olion sy'n adlewyrchu goruchafiaeth forol, anheddiad, masnach, pysgota, amddiffyniad a diwydiant, gan rhychwantu'r cyfnod o gynhanes i'r cyfnodau modern.
- Mae'r priodoleddau tirwedd hanesyddol hefyd yn cefnogi gwerthusiad eithriadol yr agweddau diwylliannol, yn ychwanegol at ddylanwad yr ardaloedd mawr o dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i'r gorllewin o bentref Marloes ac ar ochr orllewinol penrhyn y Santes Ann. Mae Penrhyn y Santes Ann yn arbennig o atmosfferig gydag ymwybyddiaeth forol uwch, sy'n deillio o'r amrywiaeth ddeniadol o strwythurau goleudy a bythynnod sydd yno.

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

- Eithriadol: Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
- Uchel: Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
- Canolig: Bwysigrwydd Lleol
- Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at yr Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)


Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Rheolir yr ardal yn dda, yn gyffredinol, gyda banciau perthi wedi eu cynnal ac ambell gwm coediog deniadol
- Mae hen feysydd awyr milwrol yn Nhalbenni ac i'r de o bentref Marloes yn cael eu cymhathu'n raddol i'r dirwedd trwy brosesau naturiol, ond maen nhw'n dal i fod yn nodweddion anghydweddol yn y dirwedd, yn enwedig ble mae'r hen adeiladau'n nodweddion sydd i'w gweld ar y gorwel i'r de ddwyrain o Farloes.
- Mae tyrbinau gwynt y Daugleddau i'w gweld o lan ogleddol Penrhyn Santes Ann. Nid oes modd eu gweld o bob man, ond mae modd gweld cip ohonynt ar hyd manau golygfeydd gwahanol y Daugleddau. (LANDMAP Newid Cyfeiriad: Adroddiad Monitro Eifennau Gweledol a Synhwyrdd mis Mawrth 2015)

Canllawiau Rheoli

- Gwarchod y coetir o fewn y dirwedd trwy deneuo a chwmpo ar raddfa fach, i sicrhau bod y rhywogaethau coed brodorol o wahanol oed a math
- Cadw cymeriad amaethyddol yr ardal trwy ofyn i ddatblygiadau fod yn rhai gwylaidd a gofyn iddynt gyd-fynd â'r ardal bresennol, gan warchod y morlin amrywiol sydd heb ei ddatblygu a'r golygfeydd cysylltiedig
- Sicrhau bod unrhyw adeiladau amaethyddol newydd yn parchu pwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol y dirwedd o ran eu lleoliad, eu gosodiad, eu ffurf a'u defnyddiau adeiladu
- Gwarchod y cymeriad brithwaith amaethyddol a choetir, gyda pherthi'n cael eu rheoli'n briodol ar sail gylchol reolaidd
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd, gyda phwyslais penodol ar hybu adferiad neu ailsefydliad waliau cerrig a pherthi ffin cae traddodiadol mewn lleoliadau gweledol pwysig. Peidio â chaniatáu i dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol ymestyn i mewn i ardaloedd sensitif o lystyfiant lled-naturiol
- Rhoi sylw i rai adeiladau fferm hŷn sydd wedi cael eu hesgeuluso ac ystyried eu haildefnyddio pan fyddant wedi dod at ddiwedd eu hoes amaethyddol
- Hybu rheolaeth bositif ar gyfer y nodweddion gardd ym Monk Haven
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 10 - SGOMER a SGOGWM



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Mae Sgomer a Sgogwm ychydig oddi ar arfordir y prif dir i'r gorllewin o Farloes. Mae'r ddwy ynys yma'n codi i 79m a 40m UDO, yn ôl eu trefn. Maen nhw'n cael eu gwahanu gan Broad Sound ac mae'r dyfroedd o amgylch Sgomer a Marloes wedi eu dynodi'n Warchodfa Natur Forol (GNF).

Nodweddion Gweledol a Synhwyaidd

Mae Sgomer a Sgogwm yn ynysoedd deniadol iawn ar orllewin arfordir Sir Benfro. Maen nhw'n gyfoeth o llystyfiant naturiol gyda phrysg a glaswelltir arfordirol wedi datblygu'n arbennig o dda oherwydd y lefelau isel o reolaeth amaethyddol yn hanes diweddar yr ynysoedd. Mae'r ffaith na'u difethwyd yn ychwanegu at werth yr ardal o ran golygfeydd, ac mae'n gorwedd o fewn y morlun y mae'n cynnig golygfeydd panoramig ohono.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Dominyddir y ddwy ynys gan y clogwyni môr dramatig a'r traethau caregog a'r llwyfandiroedd mewndirol. Dylanwadir yn drwm ar y llystyfiant gan eu bod yn agored i'r gwynt a'r halen ac fe'u dominyddir gan laswelltir clogwyni môr gydag ardaloedd bach o weundir. Dominyddir y llwyfandiroedd mewnol, ble mae'r priddoedd yn fwy dwfn ac mae yna ychydig mwy o gysgod rhag halen yr ewyn, gan ardaloedd helaeth o redyn. Ar y ddwy ynys yn y gwanwyn, mae yna garpedi o glychau'r gog a gludlys coch ac mae'r rhain yn ildio'u lle i glustog Fair a'r gludlys arfor ar y clogwyni a'r godiroedd.

Mae'r ynysoedd yn bwysig ar gyfer nifer o rywogaethau gan gynnwys pâl Manaw, yr aderyn drycin, carfilod, yr hebog tramor, y morlo llwyd, y frân goesgoch a rhywogaethau cen prin.

Mae'r amgylchedd morol islanwol a rhynglanwol yn gyfoeth o gynefinoedd a rhywogaethau, rhai ohonynt yn cyrraedd eu terfynau mwyaf gogleddol; rhai a'u terfynau mwyaf deheuol yn y DU yn GNF Sgomer.

Nodweddion Daearegol

Arwyneb wedi'i blaenio Ynys Sgomer, ar gyfartaledd o tua 50-60m ond yn codi'n lleol i ychydig o dan 80m UDO. Mae clegyrau arwynebol yn nodwedd. Yn cynnwys The Neck, ynys lai i'r dwyrain sydd wedi'i chysylltu gyda chribyn cul. Clogwyni sydd ar arfordir caregog Ynys Sgomer yn bennaf, a phrin yw'r blaendraeth, ac eithrio traeth bychan yn ardal yr Hafan. Dominyddir gan greigiau folcanig Silwraidd. Mae gan Ynys Sgogwm a'i arwyneb gwastad, sydd tua 40-45m, ardaloedd o glogwyni serth a blaendraeth caregog cul. Mae'n cynnwys cerrig silt Silwraidd neu Ddyfnantaidd cynnar a thywodfaen o'r Hen Dywodfaen Coch.

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Systemau cae ac aneddiadau o gynhanes, caer Oes Haearn a meini hirion, o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae ynysoedd oddi ar y lan arfordir Penfro o bwysigrwydd rhyngwladol am eu treftadaeth naturiol drawiadol, amrywiaeth eu cynefinoedd a'u rhywogaethau, a thystiolaeth archeolegol. Mae gan Sgomer system gae arbennig o dda o gynhanes, gydag aneddiadau, caeau a nodweddion rheoli dŵr. Mae Ynys Sgomer yn Dirwedd Gofrestredig o Bwysigrwydd Hanesyddol Neilltuol yng Nghymru. Mae Goleudy Trinity House ar Sgogwm yn ychwanegu at yr ymdeimlad o le.

Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
10	Sgomer a Sgogwm	94 - Eithriadol	133-Eithriadol 134-Eithriadol 135 Canolig	281- Eithriadol 478- Eithriadol 931- Eithriadol	42284-Eithriadol 42285-Eithriadol	859-Eithriadol 860-Eithriadol

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

Eithriadol:	O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Uchel:	O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
Canolig:	O Bwysigrwydd Lleol
Isel:	Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at yr Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Mae'r ynysoedd hyn yn ardaloedd arfordirol diffaith hynod o ddeniadol, sydd bron heb ymyrraeth ac yn gyfoeth o fywyd gwyllt
- Mae yna olygfeydd helaeth o'r môr ac, er bod modd eu gweld o lawer o'r prif dir, maen nhw allan o olwg y prif fannau glanio yn Martin's Haven, sy'n ychwanegu naws o ddirgelwch ac yn dwysau'r chwilfrydedd a'r awydd i deithio i'w harchwilio
- Mae tystiolaeth o'r hen waliau cerrig yn arwydd o ddiwylliant yr ynysoedd a hanes pobl arnynt, ac mae'n dirwedd sydd o werth hanesyddol a diwylliannol eithriadol. Gellid dweud bod Sgomer yn haeddu bod o werth rhyngwladol oherwydd ansawdd ei safleoedd archeolegol
- Mae Ynys Sgomer yn Dirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru ac yn bwysig am ei bod yn dangos gweithgarwch pobl mewn microcosm caeedig, gydag olion helaeth, sydd wedi eu cadw'n dda, o aneddiadau o gynhanes, systemau cae a gweithgarwch ffermio diweddar
- Mae'r ynysoedd oddi ar y lan ar arfordir Penfro yn bwysig yn rhyngwladol am eu treftadaeth naturiol drawiadol, amrywiaeth eu cynefinoedd a'u rhywogaethau, a'r dystiolaeth archeolegol. Ers meitin, cydnabuwyd Sgomer a Sgogwm felly, gyda'u statws fel gwarchodfeydd adar a dynodiad Gwarchodfa Natur Forol Sgomer. Mae Sgomer a Sgogwm yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn Warchodfeydd Natur Cenedlaethol. Maen nhw o bwysigrwydd rhyngwladol gyda dynodiadau Ewropeaidd fel Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Mae'r dyfroedd o amgylch Sgomer a Sgogwm yn gorwedd o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Sir Benfro Arforol
- Yn unigryw, mae gan yr ynysoedd hyn doreth o werthoedd eithriadol a gofnodwyd ar draws pob un o'r pum Agwedd o'r dirwedd a werthuswyd.



Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae gan yr ynysoedd lefelau cynnal a chadw priodol o isel, fel ardaloedd diffaith, ac mae'r duedd yn ymddangos yn gyson
- Mae yna dystiolaeth ffotograffig o'r awyr i ddangos bod lledaeniad rhedyn wedi cael effaith niweidiol ar welededd a chyfanrwydd olion archeolegol ar Sgomer dros y 10 mlynedd diwethaf.

Canllawiau Rheoli

- Parhau i reoli'r ardal fel gwarchodfa ar gyfer bywyd gwyllt, yn unol â pholisïau deddfwriaethol ehangach ac er mwyn gwarchod nodweddion tirwedd deniadol a naturiolaid y glaswelltir arfordirol
- Gwarchod cymeriad 'ynys heb ei difetha' yr ANT trwy osgoi datblygiad neu ddefnydd tir amhriodol.
- Cynnal adeiladau fferm hanesyddol ac elfennau eraill o'r dirwedd amaethyddol yn enwedig ffiniau cae
- Rheoli'r tir er mwyn gwarchod yr olion cymhleth a phwysig o gynhanes
- Monitro lledaeniad y rhedyn a gweithredu mesurau rheoli priodol os cadarnheir bod tyfiant y rhedyn yn cael effaith niweidiol ar nodweddion archeolegol
- Monitro niferoedd adar môr
- Monitro effaith amgylcheddol ymwelwyr mewn perthynas â chadwraeth cynefinoedd y glaswelltir a'r gweundir arfordirol, a'u ffawna cysylltiedig
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 11 - HERBRANDSTON



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Ardal sy'n cynnwys cyfuniad o dir diwydiannol a thir fferm gyda darn cysylltiedig o dir morydol ymylol ar hyd Aberdaugleddau a'i isafon, Sandy Haven Pill, ar ymyl y Parc Cenedlaethol.

Nodweddion Gweledol a Synhwyrdd

Tirwedd wledig isel a ddefnyddir yn bennaf at ddibenion amaethyddol gyda lleiniau o goetir sy'n ffinio gyda chymoedd bach, gydag ardaloedd bach o glogwyni arfordirol â graean bras yn sylfaen iddi ar hyd ymyl Aberdaugleddau. Mae yma un pentref a ffermydd gwasgareddig, a ddominyddir gan bresenoldeb ffatrioedd diwydiannol ar raddfa fawr iawn. Ynddynt ceir purfeydd oled sylweddol a gweithfeydd cemegol gyda rhai ardaloedd bach o gaeau amaethyddol, llaid arfordirol ac aneddiadau ar gyron yr ardal. Golygfeydd helaeth o beilonau a safleoedd diwydiannol cyfagos a phurfeydd oled yn cael effaith niweidiol ar y golygfeydd.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Cynefinoedd yn cynnwys llaid/tywod rhynglanwol, aberoedd, morfa heli, a phrysg arfordirol. Mae aber isafon bach Sandy Haven yn cynnal sawl rhywogaeth o adar dros y Gaeaf.

Nodweddion Daearegol

Mae'r ardal i'r gogledd o Herbrandston yn ardal weddol wastad sydd tua 50-60m UDO ac yn cael ei thorri gan ddyffrynnoedd nant i roi arwyneb tonnog. Ardal wedi'i gwneud yn wastad a'i thirlunio ar gyfer y burfa oled yn y de sy'n edrych allan dros Aberdaugleddau. Creigwely yn gerrig silt Hen Dywodfaen Coch a thywodfaen (Silwraidd-Dyfnantaid).

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Mae yna feddrod siambr Neolithig, caer o'r Oes Haearn a chaer South Hook a'r safle gynnu sy'n rhan o gyfres helaeth o amddiffynfeydd milwrol o fewn y ddyffrffordd ac o'i chwmpas, a adeiladwyd i amddiffyn harbwr Aberdaugleddau. Mae llawer o'r ANT hon o fewn Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Dyfrffordd Aberdaugleddau.

Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- - Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
11	Ymylon Purfa Herbrandston	68 - Isel 77-Uchel 90 - Isel	152 - Isel	365 - Uchel 649 - Isel 943 - Isel	43880-Eithriadol 43890-Eithriadol 43902-Eithriadol	003-Eithriadol 007-Uchel 196-Canolig

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

Eithriadol:	O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Uchel:	O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
Canolig:	O Bwysigrwydd Lleol
Isel:	Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at yr Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Mae'r tir fferm yn adran orllewinol yr ardal hon yn heddychlon ac yn ddymunol, ond ceir presenoldeb llethol y ffatrioedd diwydiannol a'r burfa olew sydd ar raddfa fawr iawn gerllaw, ac maen nhw'n dominyddu'r olygfa'n llwyr, yn enwedig y burfa ar y tir uwch i'r gogledd ddwyrain o'r ardal
- Dim ond yn y golygfeydd i'r gorllewin y mae'r burfa'n colli'r dylanwad hwn dros yr ymdeimlad o le
- Mae yna gynefinoedd o werth uchel ar hyd glannau'r aber
- Mae gwerthoedd gweledol a synhwyrdd isel y dirwedd hon yn gwrth-ddweud gwerth hanesyddol a diwylliannol eithriadol llawer o'r ardal, yn enwedig mewn perthynas â thraethlin Aberdaugleddau, sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Dyfrffordd Aberdaugleddau yn cwmpasu pob rhan o'r ANT hon gan gynnwys Sandy Haven Pill. Mae gan y dirwedd dyffryn afon ac aber hon gasgliad diguro o olion, sy'n adlewyrchu goruchafiaeth forol, anheddiad, masnach, pysgota, amddiffyniad a diwydiant, yn rhychwantu'r cyfnodau o gynhanes i'r modern.



Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Yn gyffredinol, mae'r tir fferm ac aneddiadau preswyl yr ardal yn cael eu rheoli'n briodol gyda pheth perthi wedi gordyfu. Ond, mae yna duedd weledol o ddirywiad o ganlyniad i'r gweithfeydd diwydiannol sy'n dominyddu'r dirwedd, a'r gweithgarwch cysylltiedig, ar dir cyfagos.
- Mae adeiladu'r Derfynfa LPG newydd ar safle hen burfa olew i'r de ddwyrain o bentref Herbrandston yn dwysau llechfeddiant diwydiant ar yr ymyl hon o'r Parc Cenedlaethol.
- Mae datblygiad tyrbinau gwynt graddfa fawr yn agos at y Parc Cenedlaethol wedi arwain at fwy o annibendod diwydiannol ar hyd y nenlinell o fannau golygfeydd penodol i'r gogledd, gorllewin a'r de. (LANDMAP Newid Cyfeiriad: Adroddiad Monitro Elfennau Gweledol a Synhwyrdd mis Mawrth 2015)

Canllawiau Rheoli


- Gwarchod ardaloedd bach o gynefin 'gwyllt' sy'n weddill, yn enwedig ar hyd glannau Sandy Haven Pill
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd, gyda phwyslais penodol ar hybu adferiad neu ailsefydliad waliau cerrig a pherthi ffin cae traddodiadol mewn lleoliadau gweledol pwysig
- Hybu rheolaeth ofalus newidiadau parhaus i'r dirwedd, gyda chyfeiriad penodol at yr effeithiau gweledol ar hyd ymylon gorllewinol a gogleddol y gosodiadau diwydiannol sy'n cael eu hadeiladu ac ymylon y Parc Cenedlaethol o amgylch
- Ystyried aildefnydd priodol ar gyfer adeiladau fferm hanesyddol ar ddiwedd eu hoes amaethyddol a sicrhau bod unrhyw adeiladau amaethyddol newydd yn parchu arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol y dirwedd o ran eu lleoliad, gosodiad, ffurf a defnyddiau adeiladu
- Darparu mynediad cyhoeddus i gaer South Hook
- Osgoi unrhyw effaith negyddol bellach ar y dirwedd a allai ddeillio o seilwaith neu ddatblygiadau diwydiannol yn yr ardal a'r cyffiniau eangach, yn enwedig ar leoliad gweledol safleoedd hanesyddol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 12 - BAE SAIN FFRAID



Ffigur 1

Gweler Ffigur 2 am yr ardal ddeheuol



Ffigur 2

Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- - Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol

Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Ehangder mawr iawn o iseldir tonnog a chlogwyni arfordirol a'r traethau cysylltiedig rhwng Solfach a Little Haven. Yn y fan hon, mae'r nodweddion arfordirol yn creu ymdeimlad cryf o le.

Nodweddion Gweledol a Synhwyaidd

Mae'r dirwedd amaethyddol hon yn gorwedd dros dirffurf ychydig yn donnog ar gefnro arfordirol yr ardal hon ar arfordir gorllewinol Sir Benfro. Mae'r dirwedd yn cynnwys cymoedd coediog bach, rhai perthi sydd wedi gordyfu ac ardaloedd prysg. Mae ganddi bentrefi a ffermydd bach gwasgaredig, rhai gyda datblygiadau twristiaeth, gan gynnwys meysydd carafannau. Mae'r cymeriad arfordirol cryf yn codi o batrwm ailadroddus o gilfachau a daneddiadau bas o bentiroedd caregog graddfa fach, hwnt ac yma rhwng nifer o draethau tywodlyd llydan. Mae yna olygfeydd helaeth ar hyd y morlin ac ar draws Sain Ffraid, o'r pentrefi arfordirol a llawer o'r heolydd a llwybrau troed lleol.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Mae'r cynefinoedd yn cynnwys glaswelltir a gwaun clogwyni môr, coetir deillgoll a phrysg. Dominyddir y morlin gan glogwyni gyda glannau tywodlyd a charegog helaeth. Nodwedd o orlifdir Brandy Brook yn Niwgwl yw glaswelltir corsiog a gwelyau cyrs.

Nodweddion Daearegol

Craig-glogwyni - hyd at tua 80m UDO - a thraethau cysylltiedig rhan ganolog a deheuol Bae Sain Ffraid, rhwng Nolton Haven a Little Haven. Mae'r adran hon yn cynnwys rhai ardaloedd o flaendraeth caregog a darnau byr o fardraeth (gyda chymoedd endoredig tu ôl), wedi'u dominyddu gan dywodfaen a siâl y Cystradau Glo Carbonifferaidd. Ardal helaeth a dorri gan y nant, sydd yng nghefnro arfordir y Daugleddau ac yn pasio tua'r tir, wedi'i thorri gan gymoedd endoredig arfordirol. Dominyddir y creigwely yma gan siâl Carbonifferaidd a thywodfaen

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Mae yna safleoedd defodol o gynhanes, tai crwn, meini hirion, caerau o'r Oes Haearn a gwrthgloddiau canoloesol, y cyfan o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae rhan fach o'r ANT hon yn cynnwys ardal o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Dyfrffordd Aberdaugleddau.



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
12	Bae Sain Ffraid	29 - Eithriadol 72 - Uchel	119-Eithriadol 120- Canolig 123 - Canolig 131 - Canolig	437 - Uchel 502 - Canolig 672 - Canolig 746 - Canolig 753 - Uchel 944 - Canolig	43891-Eithriadol 46054 -Uchel 46056 - Canolig 46058 -Uchel 46060 -Uchel 46229 -Uchel	003 -Eithriadol

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
 Uchel: O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
 Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
 Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at yr Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Dyma ddarn mawr iawn o dirwedd gyda pherthynas weledol gryf i'r arfordir o'r golygfeydd llydan ar draws Bae Sain Ffraid ac ar hyd y morlin, sydd heb ei ddatblygu gan fwyaf
- Mae'n ardal agored iawn, yn enwedig ar hyd y tir uchelach ac ar hyd yr ehangder llydan o draeth cobl yn Nhraeth Niwgl; mae yna fwy o gysgod o fewn yr ardaloedd iselach o dirwedd donnog sy'n cael ei ffermio
- Mae sain a golygfeydd yr ehangder hwn o fôr yn bresenoldeb cyson - canfyddiad sy'n cael ei gyfoethogi gan sŵn y tonnau'n taro ar y traeth cobl pan fydd digon o wynt i godi ymchwydd y tonnau, ac mae'n amlwg mewn golygfeydd agos, canolig a phell
- Mae yna rai tirweddau o werth ecolegol uchel gyda chynefinoedd sydd o bwysigrwydd rhyngwladol
- Oherwydd y nodweddion hanesyddol ac archeolegol sydd yma, mae'n dirwedd hanesyddol sydd â gwerth uchel, gan fwyaf, a pheth gwerth eithriadol, sy'n tanategu'r gwerth diwylliannol eithriadol. Cefnogir y gwerth diwylliannol ymhellach gan y darn parhaus o fynediad agored i dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar hyd rhannau gogleddol yr arfordir, sy'n rhedeg tua'r dwyrain o Solfach bron hyd at ben gogleddol Traeth Niwgl.



Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Rheolir yr ardal mewn cyflwr gweddol gyson fel tir fferm o ddwyster gweddol isel gyda phori aml gan gynnwys rhai ardaloedd o brysg garw tuag at yr arfordir
- Mae'r dirwedd yn parhau i fod yn ddeniadol, yn gyffredinol, ac yn gymharol heb ei difetha, heblaw am rhai o ymylon yr aneddiadau arfordirol ble mae yna sawl maes carafannau

Canllawiau Rheoli

- Dylid lleoli a chynllunio datblygiadau twristiaeth - yn enwedig estyniadau i feysydd carafannau - mewn ffordd sy'n osgoi effeithiau niweidiol ar y dirwedd a'r golygfeydd
- Sicrhau bod unrhyw adeiladau amaethyddol newydd yn parhau arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol y dirwedd o ran eu lleoliad, gosodiad, ffurf a defnyddiau adeiladu
- Gwarchod y cymeriad brithwaith amaethyddol a choetir, gyda rheolaeth gylchol ar gyfer perthi, gan gynnwys ailgyflwyno rheolaeth perthi priodol ble mae'r ffiniau cae hyn wedi gordyfu
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd, gyda phwyslais penodol ar hybu adferiad neu ailsefydliad waliau cerrig a pherthi ffin cae traddodiadol mewn lleoliadau gweledol pwysig
- Sicrhau bod y risg o ddigwyddiadau sy'n llygru'r dŵr at leiafswm a gwarchod yr unig draeth, o fewn terfynau rheolaeth gynaliadwy a ddiffinnir yng nghyd-destun effeithiau mwy enbyd cynhesu byd-eang
- Peidio â chaniatáu i dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol i ymestyn i mewn i ardaloedd o weundir
- Cymathu datblygiadau i'r dirwedd ar gyrion aneddiadau trwy eu gosod yn ofalus a dewis y defnyddiau, y ffurf yn ofalus a sgrinio'n ofalus
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 13 - BRANDY BROOK



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Dyffryn afon canghennog, mewndirol, nodedig isel a'r iseldir tonnog cysylltiedig, heb unrhyw gysylltiad at yr arfordir, i'r gogledd ddwyrain o Roch.

Nodweddion Gweledol a Synhwyrdd

Mae Brandy Brook yn cynnwys rhwydwaith o gyrsiau dŵr graddfa fach gyda llethrau iselach a choediog, yn bennaf, ar ochrau'r dyffrynnoedd. Yn gyffredinol, mae'r coed yn rhywogaethau llydanddail ac i'w gweld yn bennaf ar lawr y dyffryn gyda rhai coed ffin perthi amaethyddol ar ffiniau uwch y dyffryn. Mae yna ambell fferm ynysig hwnt ac yma ar hyd y dyffryn ac ar ymyl y tir uchelach o'i chwmpas. Mae ffurf amlwg a nodedig Castell Roch yn dirnod diffiniol ailadroddus ar y gorwel mewn llawer o olygfeydd ar draws yr ardal ac o'i mewn.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Mae amrywiaeth eang o gynefinoedd yn gysylltiedig â'r dyffryn afon, gan gynnwys coetir gwern, gweundir gwlyb, gwaun sych a dolydd o laswellt y bwla. Mae cynefinoedd blaenoriaeth y CGB lleol yn cynnwys glaswellt y bwla a phorfa frwynaidd, coetir gwlyb, coetir deillgoll cymysg yr iseldir a gweundir isel. Mae'r ardal yn cynnal rhywogaethau pwysig sy'n cynnwys y dyfrgi, brith y gors a'r tegeirian llydanwyrdd bach.

Nodweddion Daearegol

System dyffryn afon fewndirol, endoredig â llethrau serth. Dominyddir y creigwely gan dywodfaen a siâl y Cystradau Glo, gydag llifwaddod gorchuddiol (Chwaternaidd: Pleistosenaid-Holosen).

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Henebion defodol o gynhanes, bryngaer o'r Oes Haearn, a gwrthgloddiau canoloesol, oll o bwysigrwydd cenedlaethol. Fwy na thebyg mai'r nodweddion hanesyddol o gynhanes sydd wedi goroesi yw nodweddion hanesyddol pwysicaf y dirwedd hon.

Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- - Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
13	Brandy Brook	36 - Canolig 71 - Canolig	113-Canolig	096- Uchel 672 - Canolig 944 - Canolig 971 - Canolig	46060-Uchel	003-Eithriadol

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Mae'r ardal ddiarffordd hon o gymoedd coediog isel, sy'n torri drwy iseldir tonnog, yn ardal gysgodol a heddychlon iawn sydd â thipyn o anheddwyr ac sy'n edrych i mewn ar ei hun, gydag awyrgylch clos mewn mannau
- Mae yna batrwm anheddiad gwasgaredig sy'n cynnwys ffermydd ynysig yn unig
- Nid oes unrhyw gysylltiad at y môr, ac er nad ydyw ymhell i ffwrdd, mae ond yn bosib gweld y môr o dir uchelach llethrau'r dyffryn uwch. Yn gyffredinol, mae'r golygfeydd o fewn y dyffryn yn rhai agos
- Mae yna berthynas weledol gryf gyda thirnod lleol amlwg Castell Roch yng nghornel de orllewinol yr ANT, sy'n nodwedd ar y gorwel mewn sawl golygfa o'r ANT
- Mae yna rai cynefinoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, a'r rhai nodedig yw coetir gwern gwlyb a hefyd ardaloedd o weundir a glaswelltir gwlyb
- Am fod yma nifer o safleoedd hanesyddol ac archeolegol - yn enwedig yr elfennau o gynhanes sydd wedi goroesi - mae'n dirwedd o werth hanesyddol uchel a gwerth diwylliannol eithriadol.

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

- Eithriadol: Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
 Uchel: Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
 Canolig: Bwysigrwydd Lleol
 Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at yr Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)



Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Yn gyffredinol, rheolir yr ardaloedd coediog ac amaethyddol o dir ar ddwyster isel ond priodol, ac mae'r duedd yn ymddangos ei bod yn gyson
- Gwelwyd newid amlwg yng ngraddfa a gwead y dirwedd ffermio i'r gogledd o bentref Roch oherwydd y symudwyd perthi ffin cae traddodiadol, crëwyd caeau mwy o faint trwy uno a marciwyd ffiniau newydd gyda ffensys postion a weiar.
- Tyrbinau gwynt wedi eu hadeiladu/cymeradwyo ond nid ydynt yn weladwy iawn, gyda thyrbinau achlysurol iawn (LANDMAP Newid Cyfeiriad: Adroddiad Monitro Elfennau Gweledol a Synhwyrdd mis Mawrth 2015)

Canllawiau Rheoli

- Gwarchod y cymeriad brithwaith amaethyddol a choetir, gyda'r perthi'n cael eu rheoli'n briodol ar sail gylchol reolaidd
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd a gadael ardaloedd o amgylch ffiniau tir â'r sydd wedi gordyfu er lles bywyd gwyllt. Peidio â chaniatáu i dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol ymestyn i ardaloedd sensitif o lystyfiant lled-naturiol
- Gwarchod y coetiroedd presennol gyda'u cymeriad llydanddail yn bennaf
- Dylid rheoli perthi'n fwy priodol mewn mannau, er mwyn cadw'r banc yn llawn perlysiâu sy'n cynnal y berth sy'n gyfoeth o rywogaethau o werth uchel i fywyd gwyllt. Dylid hybu ac annog y broses o osod perthi traddodiadol yn lle ffensys ffin postion a weiar, yn enwedig pan mae modd eu gweld o heolydd cyhoeddus
- Creu ymyl gogleddol mwy meddal i ardaloedd preswyl ym mhentref Roch trwy blannu'n briodol ar dir cyfagos, gyda chytundeb
- Gwarchod lleoliad Castell Roch (adeilad rhestredig Gradd I) yn y dirwedd yn ardal de orllewinol yr ANT hon a gwarchod golygfeydd pell o olygfannau ar hyd heolydd cyhoeddus yn yr ardal
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 14 - CWM SOLFACH



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Dyffryn afon morydol isel a chul sydd wedi'i dorri i mewn i'r iseldir tonnog a'r arfordir o gwmpas. Mae'r arfordir yn cynnig ymdeimlad cryf o le ar gyfer yr anheddiad harbwr gerllaw.

Nodweddion Gweledol a Synhwyrdd

Pentref morydol deniadol, graddfa fach sydd wedi'i leoli'n dda ar fanc gorllewinol afon Solfach isaf. Mae gan rannau hynaf y pentref gymeriad traddodiadol oherwydd amllder y bythynnod traddodiadol, sy'n rhedeg tua'r tir o'r harbwr - gyda'i gychod bach lliwgar - ar hyd cwm coediog dymunol yr afon Solfach. Mae gan y pentref gysylltiad arfordirol cryf ac mae'r golygfeydd i'r arfordir o'r harbwr yn rhoi ymdeimlad cryf o le i'r pentref.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Ceir amrywiaeth eang o gynefinoedd sy'n gysylltiedig â'r dyffryn, gan gynnwys rhai sydd o bwysigrwydd rhyngwladol fel gweundir gwlyb gyda gwaun sych a gwaun croesddail. Mae cynefinoedd blaenoriaeth y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn cynnwys coetir deillgoll cymysg isel, gweundir isel a chlogwyni a llethrau morol. Y rhywogaethau blaenoriaeth sy'n bresennol yw'r frân goesgoch, yr hebog tramor, anifeiliaid di-asgwrn-cefn a chennau prin.

Nodweddion Daearegol

Adran endoredig is o Gwm Solfach gyda llethrau serth, heb gynnwys yr ardal rhynglanwol. Yn lleol, mae'r sylfaen gwastad yn arwydd o fewnlenwad, fwy na thebyg yn llawn llifwaddod morydol. Mae'r creigwely'n dywodfaen a charreg laid Cambriaidd. Dominyddir y tir sydd ychydig yn donnog, i'r gorllewin o afon Solfach, ac yn codi i tua 90m, gan lechi a thywodfaen Cambriaidd gyda Chyn-gambriaidd i'r Gogledd Ddwyrain.

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Mae yna henebion defodol o gynhanes, bryngaer o'r Oes Haearn, gwrthglawdd canoloesol a safle amffosog, ynghyd ag adeiladau a strwythurau Ôl-ganoloesol, y cyfan o bwysigrwydd cenedlaethol.

Erbyn hyn, mae'r diwylliannau brodorol yn llai amlwg am eu bod yn cael eu disodli gan ddiwylliant cychod hwylio; ond mae gan Solfach olion o ddiwylliant iaith Gymraeg a ffordd Gymreig o fyw o hyd. Mae rhan fach o'r ANT hon yn gorwedd o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Ynys Dewi a Phenrhyn Tyddewi.

Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
14	Cwm Solfach	28-Canolig 29-Eithriadol 34 - Uchel 35 - Uchel 72-Uchel	97 - Canolig 101- Canolig	519 - Canolig 641-Eithriadol 672 - Canolig 773-Uchel 996 - Canolig 957 - Uchel	42278-Eithriadol 46060-Uchel 46090-Uchel 46225-Uchel 46091-Eithriadol	003-Eithriadol 004-Eithriadol 565 - Uchel

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
 Uchel: O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
 Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
 Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at yr Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Mae Cwm Solfach yn gysgodol iawn ac wedi'i dorri i mewn i'r llwyfandir arfordirol tonnog o amgylch, gydag awyrgylch clos a heddychlon ar lawr y dyffryn
- Mae gan hen graidd y pentref, o amgylch ochr orllewinol yr harbwr, ymdeimlad cryf o le ac mae llawer o'r adeiladau yn dal i edrych yn draddodiadol - elfen sy'n deillio o'i rôl fel anheddiad harbwr diwydiannol yn y gorffennol gyda masnach gwaith calch ôl-Ganoloesol pwysig
- Mae gan y cwm sawl atgof o'i orffennol diwydiannol, yn enwedig yr odyrau calch wrth yr harbwr, ac mae yna felin wlân sy'n gweithio ym mhentrefan Middle Mill. Roedd y cwm yn ddolen drafnidiaeth bwysig iawn i Middle Mill. Er bod yna chwarel graig galed weithiol ger Middle Mill, nid yw'n ymyrryd yn weledol â thirwedd y cwm
- Oherwydd y safleoedd hanesyddol ac archeolegol a gofnodwyd yn yr ardal mae ganddi dirweddau o werth hanesyddol eithriadol ac uchel
- Mae'r gwerth diwylliannol yn uchel, oherwydd y diwylliant Cymreig gweddilliol, er gwaethaf y ffaith ei fod wedi teneuo oherwydd yr hamdden forol sydd wedi treiddio i'r ardal yn ddiweddar. Cefnogir y gwerth diwylliannol ymhellach gan ddarn o dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar hyd yr aber iselach ac ar draws aber yr afon.
- Mae yna Ardal Gadwraeth helaeth (a ddynodwyd ym Mehefin 1997) sy'n cwmpasu Solfach Isaf, adran helaeth o Gwm Solfach a rhannau hynaf Solfach Uwch, gan adlewyrchu pwysigrwydd hanesyddol a diwylliannol yr anheddiad.

Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae ardaloedd cymunedol a phreswyl y pentref a'r harbwr yn Solfach Isaf wedi eu rheoli'n dda, yn gyffredinol, ac mae yna goed deniadol ar hyd ffiniau coediog cul y pentref
- Mae rhannau uchaf cyrion gorllewinol y pentref, sydd wedi cael ei anheddu'n ddiweddar, wedi colli eu ffurf a'u cymeriad adeiledig traddodiadol, a'r canlyniad yw bod yr ymdeimlad o le wedi diflannu tu hwnt i rannau hynaf Solfach Uwch.

Canllawiau Rheoli

- Gwarchod cymeriad aber bach y pentref gyda'r harbwr cysylltiedig a'i gwm coediog, gan gynnwys hybu rheolaeth priodol ar gyfer y coetiroedd llydanddail, yn enwedig yn ardal y chwarel ger Middle Mill
- Gwarchod y cymeriad brithwaith amaethyddol a choetir, gyda'r perthi'n cael eu rheoli'n briodol ar sail gylchol reolaidd
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd, gyda phwyslais penodol ar hybu adferiad neu ailsefydliad waliau cerrig a pherthi ffin cae traddodiadol mewn lleoliadau gweledol pwysig
- Peidiwch â chaniatáu i dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol ymestyn i mewn i ardaloedd o waun arfordirol
- Sicrhau bod unrhyw adeiladau amaethyddol newydd yn parhau arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol y dirwedd o ran eu lleoliad, gosodiad, ffurf a defnyddiau adeiladu
- Gwarchod y safleoedd archeolegol pwysig, yn enwedig yr odyrau calch, er mwyn cadw eu cyfanrwydd a'u cyd-destun gweledol
- Gwarchod cymeriad adeiledig traddodiadol y pentref arfordirol hwn a'i osodiad yn y dirwedd, a hybu cymathiad gweledol cywir cyrion Solfach Uwch i mewn i'r dirwedd amaethyddol o amgylch, trwy gynlluniau plannu, yn ôl cytundeb
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad oes unrhyw nodweddion daearegol neu eomorffolegol yn cael eu colli neu eu difrodi
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.